

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Rhan 4: Adrannau 50, 52, 53(3) (taliadau uniongyrchol) a

Rhan 5: Adrannau 59, 60, 61, 62, 66, 67, 69 (codi ffioedd) a 63, 64, 65 (asesiad ariannol)

Pennu cyfraniad neu ad-daliad ar gyfer taliadau uniongyrchol; gallu i osod ffioedd, neu i ddatgymhwyso codi ffioedd, ar gyfer gofal a chymorth; pennu gallu person i dalu ffi; gallu i godi ffi ar gyfer gwasanaethau ataliol a chynhorthwy; a chynnal asesiad ariannol.

Bydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn trawsnewid yn llwyr y ffordd y caiff gwasanaethau cymdeithasol eu darparu yng Nghymru i ddiwallu anghenion yr unigolyn a gwneud gwasanaethau'n gynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Bydd yn dod i rym yn mis Ebrill 2016.

Mae'r Ddeddf yn rhoi llais cryfach a rheolaeth wirioneddol i bobl dros y cymorth y mae ei angen arnynt i ddileu rhwystrau i'w llesiant. Mae'n canolbwyntio ar ymyrryd yn gynharach i atal anghenion rhag dod yn ddifrifol, ac mae'n hyrwyddo'r arfer o fuddsoddi mewn adnoddau yn y tymor byr i roi'r gwerth gorau i bwrs y wlad ar y cyfan.

Mae'r Ddeddf hefyd yn hyrwyddo integreiddio rhwng y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol i'r graddau mwyaf posibl er mwyn cyflawni canlyniadau llesiant gwell.

Mae'r rheoliadau a'r cod ymarfer statudol mewn perthynas â Rhannau 4 (taliadau uniongyrchol) a Rhan 5 (Codi Ffioedd ac Aseidiadau Ariannol) yn darparu eglurder a chyfarwyddyd ynghylch yr adrannau o'r Ddeddf a restrir uchod. Mae'r ddogfen frifio dechnegol hon yn rhoi crynodeb byr o'r ddyletswydd, ond nid dogfen gyfreithiol mohoni.

Dolenni allweddol:

Rheoliadau Gofal a Chymorth (Gosod Ffioedd) (Cymru) 2015

http://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/1842/pdfs/wsi_20151842_mi.pdf

Rheoliadau Gofal a Chymorth (Aseiad Ariannol) (Cymru) 2015

http://www.legislation.gov.uk/wsi/2015/1844/pdfs/wsi_20151844_mi.pdf

Mae'r rheoliadau hyn wedi cael eu gwneud a byddant yn dod i rym ar 6 Ebrill 2016

Cod Ymarfer ar Rannau 4 a 5 (Codi Ffioedd ac Aseidiadau Ariannol)

<http://gov.wales/docs/dhss/publications/151218part4-5cy.pdf>

Cyhoeddwyd y cod ymarfer hwn o dan rannau 4 a 5 o'r Ddeddf ar 18 Rhagfyr 2015. Mae'n dod i rym ar 6 Ebrill 2016

Crynodeb o'r ddyletswydd

Mae **adran 59** yn rhoi'r disgrisiwn i awdurdod lleol osod ffi ar gyfer y gofal a'r cymorth, neu'r cymorth i ofalwr, a ddarperir neu a drefnir ganddo o dan adrannau 35 i 45 o'r Ddeddf er mwyn diwallu anghenion person. Mae **adrannau 60 i 62, 66 a 67** yn pennu, neu'n galluogi pennu mewn rheoliadau, sut y gellir defnyddio'r disgrisiwn hwn, gan gynnwys y ffaith y dylai penderfyniad i osod ffi fod yn seiliedig ar asesiad ariannol o allu person i dalu ffi. Mae **adrannau 63 i 65** yn caniatáu gwneud rheoliadau i reoli aseidiadau ariannol. Mae **adrannau 50, 52 a 53(3)** yn caniatáu gwneud rheoliadau sy'n efelychu'r darpariaethau codi ffioedd mewn perthynas â chyfraniadau neu ad-daliadau ar gyfer taliadau uniongyrchol. Mae **adran 69** yn caniatáu gwneud rheoliadau mewn perthynas â ffioedd ar gyfer gwasanaethau ataliol a chynhorthwy sy'n cael eu darparu o dan adrannau 15 ac 17 o'r Ddeddf.

Beth mae'n ei wneud?

Mae'r rheoliadau yn cyflwyno'r canlynol:

Codi ffioedd – pan fo awdurdod lleol yn penderfynu defnyddio ei ddisgrisiwn i osod ffi neu bennu cyfraniad neu ad-daliad ar gyfer taliadau uniongyrchol, mae'n rhaid iddo weithredu yn unol â'r gofynion a nodir yn y rheoliadau a'r cod. Wrth osod ffioedd, ni all

awdurdod lleol godi ffioedd ar bersonau penodol neu ar gyfer mathau penodol o ofal a chymorth, ac mae'n rhaid iddo ddefnyddio cyfyngiadau ariannol penodol i sicrhau bod y person yn gallu talu ffi yn rhesymol, gan sicrhau ei fod yn gallu cadw rhywfaint o'i incwm i dalu costau byw bob dydd. Mae'r cyfyngiadau hyn yn amrywio gan ddibynnu ar a yw'r person yn derbyn gofal a chymorth preswyl neu amhreswyl.

Mae'r rheoliadau yn parhau i sicrhau nad yw'n ofynnol i berson dalu mwy nag uchafswm wythnosol penodedig ar gyfer gofal a chymorth amhreswyl. Mae'r rheoliadau hefyd yn sicrhau bod person yn gallu cadw rhywfaint o'i asedau cyfalaf na ellir eu defnyddio tuag at gostau gofal a chymorth.

Mae'r rheoliadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol ddarparu datganiad o'r ffi, yr ad-daliad neu'r cyfraniad a osodwyd, a'i ddiwygio yn ôl yr angen.

Mae'r rheoliadau hefyd yn galluogi awdurdod lleol i godi ffi unffurf ar gyfer gwasanaethau ataliol a chynhorthwy.

Asesiad ariannol – mae'r rheoliadau yn pennu cyfres o ofynion y mae'n rhaid i awdurdod lleol eu hystyried wrth gynnal asesiad ariannol o allu person i dalu ffi, neu wrth bennu cyfraniad neu ad-daliad ar gyfer person sy'n derbyn taliadau uniongyrchol.

Mae'r rheoliadau yn nodi pa wybodaeth y mae'n rhaid i awdurdod lleol ei darparu i berson cyn gynnal asesiad ariannol, yr amserlen ar gyfer awdurdod lleol i ofyn am wybodaeth, a'i derbyn, gan berson, a'r prosesau sydd i'w dilyn. Mae'r rheoliadau yn nodi'r amgylchiadau lle nad oes unrhyw ddyletswydd i gynnal asesiad ariannol.

Mae'r rheoliadau yn cynnwys rhannau ar wahân yn ymwneud â thrin a chyfrifo incwm a chyfalaf. Mae amserlenni ar wahân yn nodi mathau o asedau cyfalaf ac incwm penodol ac yn pennu sut y dylid eu trin mewn asesiad ariannol o berson.

Cydweddu â'r Ddeddf

Mae'r newidiadau rheoliadol yn cadw'r ddarpariaeth bresennol o greu strwythur sy'n

sylfaen i awdurdod lleol gynnal asesiad ariannol a phennu ffi, cyfraniad neu ad-daliad ar gyfer person sy'n derbyn gofal a chymorth.

Beth mae hyn yn ei olygu yn ymarferol?

Mae'r darpariaethau newydd yn cynnwys yr un egwyddorion a gofynion allweddol ag sydd ar waith ar hyn o bryd ar gyfer godi ffioedd am ofal a chymorth. Fodd bynnag, y gwahaniaeth cyffredinol sydd wedi'i gyflwyno yw'r ffaith y bydd codi ffioedd am ofal a chymorth o bob math bellach yn digwydd yn ôl disgrisiwn awdurdod lleol, ac ni fydd gwahaniaeth rhwng y broses asesu a phenderfynu, waeth beth yw natur y gofal a'r cymorth y codir ffi amdanynt. Yn y cyswllt hwn, os yw awdurdod lleol am ddiwallu anghenion person drwy ddarparu neu drefnu rhyw fath o ofal a chymorth, neu drwy ddarparu taliadau uniongyrchol, mae'n gallu penderfynu a yw am godi ffi am hynny.

Mae'r darpariaethau newydd yn galluogi fframwaith mwy cyson a symlach sy'n sylfaen i awdurdod lleol gynnal asesiad ariannol a chodi ffi os yw'n dymuno gwneud hynny. Mae'r darpariaethau newydd yn ei gwneud yn ofynnol defnyddio'r un dull gweithredu wrth godi ffioedd am ofal a chymorth o bob math, ac mae cyfres o fesurau diogelu ariannol ar waith i amddiffyn pobl rhag wynebu ffioedd amhriodol.

Rhagor o wybodaeth

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014:

<http://senedd.cynulliad.cymru/mglIssueHistoryHome.aspx?lId=5664>

Rhagor o wybodaeth o wefan Llywodraeth Cymru:

<http://gov.wales/topics/health/socialcare/?lang=cy>

Hyb Gwybodaeth a Dysgu Cyngor Gofal

Cymru: <http://www.cgymru.org.uk/hyb-deall-y-ddeddf/?force=2>